



Cymrodoriaeth g39 - Cyhoeddi Artistiaid Blwyddyn Tri:

Mae'n bleser gan g39 gyhoeddi trydydd grŵp rhaglen Gymrodoriaeth g39 2021-22. Yn dilyn galwad agored a phroses ddethol, rydym yn falch o groesawu:

**Rebecca Jagoe
(Sir Fynwy)**

**Aled Simons
(Abertawe)**

**Alice Briggs
(Aberystwyth)**

**Philippa Brown
(Caerdydd)**

**Tom Cardew
(Aberhonddu).**

Bydd yr artistiaid yn cymryd rhan mewn rhaglen strwythuredig o ymarfer stiwdio ac ymchwil hunangyfeiriedig yn g39 dros gyfnod o ddwy flynedd gyda chymorth ariannol. Mae'r rhaglen yn unigryw yng Nghymru ac yn ategu'r cymorth parhaus mae g39 yn ei gynnig i artistiaid yng Nghymru.

Menter yw Cymrodoriaeth g39 sy'n meithrin, ehangu ac yn cryfhau grŵp cyfoed o artistiaid dros raglen bum mlynedd. Mae'n ffurfio rhan o Raglen Artistiaid Freelands ochr yn ochr â mentrau cywerth a drefnir gan PS2 (Paragon Studios/Project Space) ym Melfast, Oriel Site yn Sheffield, ac Oriel Talbot Rice ym Mhrifysgol Caeredin. Byddant yn ymuno â'r grŵp cyntaf a ymunodd â'r rhaglen yn 2018 - Kelly Best, Ian Watson, Fern Thomas, Neasa Terry, Jennifer Taylor ac 2019 Becca Thomas & Clare Charles - sy'n gweithio ar y cyd, Will Roberts, Rebecca Gould, Rhiannon Lowe a Freya Dooley a fydd yn dechrau eu flwyddyn yn rhan o'r Gymrodoriaeth - gohiriwyd yn 2020 oherwydd coronafirws.

Mae'r Gymrodoriaeth yn cynnwys cyfres ddwys o weithdai a hyfforddiant, amser cyswllt gyda mentoriaid, artistiaid sy'n ymweld, curaduron a staff g39. Byddwn hefyd yn trefnu siaradwyr gwadd a darlithoedd, sesiynau grŵp ar gyfer cael beirniadaeth gan gyfoedion, diwrnodau cwrdd i ffwrdd, ymweliadau ymchwil, cyfleoedd rhwydweithio o bell a gweithgareddau cymdeithasol. Yn ogystal, bydd Rhaglen Artistiaid Freelands hefyd yn trefnu symposiwm blynyddol ac arddangosfa i bob un a gymerodd ran ar ddiwedd pob carfan ddwy flynedd.

Erbyn diwedd y rhaglen, bydd mwy nag ugain o artistiaid wedi cymryd rhan yng Nghymrodoriaeth g39.

DIWEDD



Lluniau:
 Philippa Brown, *Matter, out of place*, 2020
 Rebecca Jagoe *You are what you eat* (2019) Perfformiadau gyda Beth
 Bramich, 35 munud. Llun - Paul Chapellier
 Alice Briggs, *The Place Where One Lies*, 2020
 Tom Cardew, *Love Hangover* 2019, g39
 Aled Simons, *Sulkmania*, fel rhan o Artticks, Llundain 2019

Gwybodaeth am g39 a Warp

Sefydliad yng Nghaerdydd a arweinir gan artistiaid yw g39, sy'n ymrwymedig i gomisiynu, datblygu a chyflwyno celf gyfoes. Yn rhannol oriel, yn rhannol cymuned ac yn rhannol adnodd, mae wedi dod yn rhan annatod o'r sin a arweinir gan artistiaid, ac mae'n ganolfan ar gyfer cymuned greadi-gol y wlad, a'n rhywle i gynulleidfaoedd gael mynediad at gelf gyfoes. Ar ôl adleoli yn 2011, g39 bellach yw un o'r manau mwyaf ar gyfer celfyddyd weledol gyfoes yng Nghymru. Mae'r ffordd y mae'n cefnogi ac yn cyflwyno gwaith newydd gan artistiaid cyfoes yn cael ei chydabod fel rhan hanfodol o'r rhwydweithiau diwylliannol yng Nghymru a'r DU.

Rhaglen gymorth g39 ar gyfer ymarfer artistig yw Warp (Wales Artist Resource Programme), ac mae'n cynnig sesiynau beirniadaeth gan gyfoedion, sgysiau gan guraduron-artistiaid, gweithdai, seminarau, mentora, datblygiad proffesiynol ac ymweliadau. Mae Warp yn darparu rhwydwaith hanfodol a chymdeithasol ar gyfer cymuned greadi-gol yng Nghymru a thu hwnt.

Mae Warp a g39 yn cynnig ystod o weithgareddau sy'n cynnwys artistiaid o amrywiaeth o wledydd sydd ar gamau gwahanol o'u gyrfa. Mae gan lawer o artistiaid sydd wedi cael eu cefnogi gan g39 yn ystod camau cynnar eu gyrfa enw da iawn, gan gynnwys James Richards, Megan Broadmeadow, Sean Edwards, Heather Philipson a Bedwyr Williams. Mae g39 yn cydweithio'n aml ag orielau eraill ar

draws y byd er mwyn arddangos artistiaid o Gymru dramor, yn ogystal â chynnal arddangosfeydd a guradwyd ar y cyd gan wledydd eraill.

Gwybodaeth am Raglen Artistiaid Freelands
Menter newydd ledled y DU yw Rhaglen Artistiaid Freeland, a sefydlwyd i gefnogi ac ehangu ecosystemau celfyddydol rhanbarthol trwy feithrin cyfleoedd cydweithio a pherthynas hirdymor rhwng artistiaid sy'n dod i'r amlwg a sefydliadau'r celfyddydau ledled y wlad.

Ei nod yw cefnogi grŵp o sefydliadau celfyddydol uchelgeisiol o bob cwr o'r DU i drawsffurfio dyfodol 80 o artistiaid sy'n dod i'r amlwg dros gyfnod o bum mlynedd. Yn ogystal, mae'n bwriadu gadael rhodd ehangach o ran addewid a phosibilrwydd yn yr ecosystemau celfyddydol hyn, yn ogystal â chreu cyfleoedd newydd i ymgysylltu â'r cyhoedd.

Mae'r rhaglen newydd yn cynnig cyfanswm o £1.5m o gyllid dros bum mlynedd i bedwar sefydliad celfyddydol. Mae hyn yn cynnwys cyllideb raglennu gynhwysfawr ar gyfer pob sefydliad, gan gynnwys recriwtio staff ychwanegol lle bo angen. Mae'r cyllid hefyd yn cynnwys grantiau unigol ar gyfer pob artist a ddewisir gan y sefydliadau, yn ogystal â chostau teithio sefydliadol i symposiwm blynyddol yn y DU - er mwyn rhannu'r hyn a ddysgwyd ac arferion gorau ymysg y cyfranogwyr.

CYSYLLTWCH Â:

g39

Cyfarwyddwr Cwmni: Chris Brown / chris@g39.org

Cyfarwyddwr Creadigol: Anthony Shapland / anthony@g39.org

g39 Stryd Rhydychen, CAERDYDD CF24 3DT

Amseroedd agor – rhwng 11am a 5pm o ddydd

Mercher i ddydd Sadwrn

Ffôn +44 (0) 29 2047 3633

g39.org @g39cardiff #g39cardiff

DELWEDDAU A LOGOS AR GAEL AR GAIS

